

Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21

Cyflwyniad

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith yn hyderus mewn bywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid inni sicrhau bod pob dysgwr yn elwa o gwricwlwm o'r radd flaenaf a'u bod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli.

Diben cynllun gweithredu y Gymraeg mewn addysg 2017-21 yw gosod ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Gymraeg ac iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf. Datblygwyd y cynllun gan weithio gyda'n rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r cynllun yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017) ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21* (2017). Mae'r cynllun hefyd yn cyflawni un o'r camau gweithredu yng nghynllun gwaith Cymraeg 2050, ac yn adeiladu ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg, a gyhoeddwyd yn 2010.

Nid dyma ddechrau'r daith; mae seiliau cadarn eisoes wedi eu gosod. Fodd bynnag, wrth i'r system addysg gychwyn ar ddiwygiadau pellgyrhaeddol, mae'n darparu'r cyfle gorau i sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd y datblygiadau.

Crynodeb o'r cynllun

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen sawl cam gweithredu i greu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae'r cynllun yn cynnwys egwyddorion craidd er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o rôl addysgu a dysgu Cymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ym mhob ysgol yng Nghymru a darparu sail ar gyfer datblygiadau polisi yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn cynnwys pedair amcan a chamau allweddol i'w cyflawni erbyn 2021:

Cwricwlwm, asesu ac addysgeg

Mae datblygu cwricwlwm Cymraeg newydd a fydd yn ysbrydoli dysgwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Un o'r prif gamau gweithredu yw datblygu un continwmm ar gyfer dysgu Cymraeg. Bydd hwn yn golygu na fydd y term Cymraeg ail iaith yn cael ei ddefnyddio bellach, ac y bydd y disgwyliadau yn glir i bob plentyn, p'un a ydyn nhw mewn ysgol Gymraeg neu ysgol Saesneg.

Cyfoethogi a phrofiadau yn Gymraeg

Rydym yn cydnabod na all addysg yn unig greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd.

Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth

Mae gweithlu addysg uchelgeisiol yn hanfodol i weithredu'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr yng Nghymru i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meddu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. Byddwn hefyd yn paratoi'r gweithlu i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.

Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg

Un o'r newidiadau trawsnewidiol allweddol yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* yw cynyddu nifer y dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd angen cynllunio ar gyfer y cynnydd hwn ar y cyd â chynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu newydd. Mae angen i ni ystyried sut gall y daith y mae plant a phobl ifanc yn ei dilyn ar hyd y continwmm iaith yn gallu cael ei ategu trwy ddefnyddio mwy o Gymraeg fel cyfrwng addysgu

Rhagoriaeth, tegwch a llesiant

Rhaid i ni sicrhau y gall pob dysgwr gael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a phrofi'r cyfleoedd gorau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21*, mae tegwch yn golygu bod angen i ni sicrhau bod y system, ar lefel ysgolion, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac yn ymateb i'r heriau hynny.

Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr yn sail i gyflwyno'r cynllun i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r Gymraeg mewn addysg ac i ennyn diddordeb ac ysbrydoli rhanddeiliaid, rhieni / gofalwyr a dysgwyr i fod yn rhan o'r siwrnai gyffrous hon ar gyfer yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Yn ogystal, fel yr amlinellir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd adeiladol a chadarn. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith hwn i asesu a gwerthuso llwyddiant y polisi addysg yng Nghymru a'r cynllun cyflawni ar draws y system, gan annog pob partner i chwarae eu rhan lawn wrth gyflawni'r gorau i'n dysgwyr ac athrawon ym mhob lleoliad.